

## Arolwg Cleifion NPCA: Hysbysiad Preifatrwydd/Prosesu Teg

### Beth yw Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad?

Mae [Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad \(NPCA\)](https://www.npca.org.uk/) <<https://www.npca.org.uk/>> yn archwiliad ar y cyd rhwng yr Uned Effeithiolrwydd Clinigol yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon Lloegr (RCS), y Gymdeithas Llawfeddygon Wroleg (BAUS) a grŵp Wroleg-oncoleg Prydain (BUG). Mae Tîm Prosiect NPCA wedi'i leoli yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon.

Nod yr NPCA yw asesu'r gofal a roddir i ddynion sy'n derbyn diagnosis o ganser y prostad yng Nghymru a Lloegr a'r canlyniadau mae'n eu cyflawni. Drwy archwilio'r gofal a ddarperir gan wasanaethau canser, gallwn bwysleisio meysydd y mae ysbytai yn llwyddo ynddynt, a'r meysydd lle gellir gwella ansawdd gofal. Drwy gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer holl ddarparwyr gwasanaethau canser y GIG, mae'n galluogi'r darparwyr hyn i gymharu eu hunain ag eraill yng Nghymru a Lloegr, a rhannu enghreifftiau o arfer da.

Y NPCA sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ar ansawdd y gofal a roddir i gleifion y GIG drwy ganfod beth yw safbwyntiau'r cleifion drwy **Arolwg Cleifion HPCA**, holiadur drwy'r post sy'n cael ei anfon yn uniongyrchol at ddynion â chanser y prostad.

Mae'r NPCA yn cael eu comisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion.

### Beth yw Arolwg Cleifion NPCA?

Cafodd Arolwg Cleifion NPCA ei ddylunio i gasglu safbwyntiau cleifion am eu profiad hwy o ofal a chanlyniadau yn dilyn diagnosis a thriniaeth. Gofynnir cwestiynau i'r cleifion am ansawdd eu bywyd, sgil-ffeithiau, cymhlethdodau rhywiol/wrinol/coluddyn, y wybodaeth maent yn ei derbyn am eu diagnosis o ganser y prostad ac opsiynau triniaeth, a sut y gwnaed y penderfyniad ynglŷn â'u triniaeth gychwynnol.

Anfonir Arolwg Cleifion NPCA at ddynion sydd wedi derbyn triniaethau llawfeddygol radical neu radiotherapi, yn ogystal â'r dynion hynny sy'n cael eu monitro'n agos o ran datblygiad y clefyd, 18 mis ar ôl derbyn diagnosis.

### Beth yw hysbysiad preifatrwydd?

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr data ddarparu gwybodaeth benodol i bobl y maent yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth (data personol) amdanynt. Mae hysbysiad preifatrwydd yn un ffordd o ddarparu'r wybodaeth hon. Cyfeirir at hyn weithiau fel hysbysiad prosesu teg. Dylai hysbysiad preifatrwydd nodi pwy yw'r rheolydd data a rhoi manylion cyswllt ei Swyddog Diogelu Data. Hefyd, dylai esbonio'r dibenion ar gyfer casglu a defnyddio data personol, sut mae'r data yn cael ei ddefnyddio a'i ddatgelu, am ba hyd y bydd yn cael ei gadw, a sail gyfreithiol y rheolydd dros brosesu.

## Ein cyfrifoldebau diogelu data

**HQIP** yw'r **Rheolydd Data** (fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Diogelu Data 2008 a'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ei disodli neu'n ei diwygio, gan gynnwys y GDPR) mewn cysylltiad ag unrhyw ddata personol a fydd yn cael ei brosesu er mwyn cynnal Arolwg Cleifion NPCA. Mae hyn yn golygu mai HQIP sy'n gyfrifol am benderfynu pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei defnyddio ar gyfer yr Arolwg hwn, gan wneud yn siŵr bod rhagofalon technegol a sefydliadol priodol er mwyn diogelu'r data ac ar gyfer cynnal hawliau unrhyw berson y mae eu data yn cael ei brosesu.

Mae HQIP wedi cyfeirio Quality Health Ltd (cwmni arolygon arbenigol) i weinyddu Arolwg Cleifion NPCA fel **Prosesydd Data**. Mae'n ofynnol i broseswyr brosesu data personol yn unol â chyfarwyddiadau'r rheolydd. Swyddog Diogelu Data Interim HQIP: Sasha.Hewitt:hqip.org.uk

## Sut ydym ni'n dewis darpar gyfranogwyr?

Mae darpar gyfranogwyr yn cael eu dewis gan Dîm Prosiect NPCA yn Uned Effeithiolrwydd Clinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon gan ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chasglu gan [Rwydwaith Canser Cymru \(WCN\)](http://www.walescanet.wales.nhs.uk/home) <<http://www.walescanet.wales.nhs.uk/home>> a [Gwasanaeth Cenedlaethol Cofrestru a Dadansoddi Canser \(NCRAS\)](https://www.ndrs.nhs.uk/) <<https://www.ndrs.nhs.uk/>> yn Lloegr. Mae'r sefydliadau hyn yn cael casglu data am gleifion sy'n derbyn diagnosis o ganser.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i Dîm Prosiect NPCA yn cael ei dadbersonoli - mae gwybodaeth adnabyddadwy claf, gan gynnwys enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post a rhif GIG yn cael ei dileu gan NCRAS a WCN cyn ei throsglwyddo'n ddiogel i Dîm Prosiect NPCA.

Mae NCRAS a WCN yn darparu gwybodaeth glinigol am bob dyn sy'n derbyn diagnosis o ganser y prostad yn Lloegr (ers 2014) ac yng Nghymru (ers 2015) i Dîm Prosiect NPCA i'w dadansoddi. Mae dynodydd unigryw NPCA yn galluogi Tîm Prosiect NPCA i gysylltu'r wybodaeth gyda [setiau data cenedlaethol](#) eraill ynglŷn â'r diagnosis, rheoli a thrin pob dyn sydd newydd dderbyn diagnosis o ganser y prostad gan gynnwys manylion y cam, dull derbyn, cydafiachedd, gweithdrefn neu ymyrraeth lawfeddygol, manylion radiotherapi a chemotherapi, aildderbyniadau a chymhlethodau.

Mae dynodwyr unigryw NPCA y dynion sy'n cael eu dewis fel cyfranogwyr posibl yr Arolwg Cleifion yn cael eu dychwelyd i NCRAS a'r WCN. Ni fydd Tîm Prosiect NPCA yn cael gwybod pwy yw'r dynion hyn.

## Sut ydym ni'n gwahodd darpar gyfranogwyr?

Bydd gwybodaeth gyfrinachol (rhif GIG, enw, cyfenw, cyfeiriad, cod post a dyddiad geni'r claf) ar gyfer cleifion yn y cohort ar gyfer Arolwg Cleifion NPCA yn cael ei throsglwyddo'n ddiogel gan NCRAS a'r WCN i Quality Health Ltd at y diben o weinyddu Arolwg Cleifion NPCA.

Pan fyddant yn anfon manylion pob dyn cymwys at Quality Health Ltd, anfonir eu dynodydd unigryw NPCA gyda'u data er mwyn gallu cysylltu eu hymatebion i'r arolwg i'r wybodaeth iechyd am ddiagnosis a gofal y claf gan Dîm Prosiect NPCA yn Uned Effeithiolrwydd Glinigol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon.

Mae'r holl ddata yn cael ei storio a'i ddadansoddi mewn amgylchedd diogel sy'n cydymffurfio â [Phecyn Offer Diogelu Data'r GIG Digidol](#).

Bydd Quality Health Ltd yn cael mynediad at *Wasanaeth Swp Demograffig GIG Digidol* er mwyn cynnal gwiriadau marwolaethau ac adalw cyfeiriad presennol y claf ar gyfer y dynion hynny yn y cohort ar gyfer Arolwg Cleifion NPCA. Cyn anfon holiadur i gyfeiriad cartref claf, cynhelir gwiriad er mwyn cadarnhau bod y claf yn fyw er mwyn lleihau'r risg y bydd holiaduron yn cael eu hanfon at deuluoedd mewn profedigaeth. Cynhelir gwiriadau cyfeiriad er mwyn sicrhau bod cyfeiriad claf yn parhau i fod yn gyfredol.

Mae NCRAS, WCN a Quality Health Ltd yn ystyried eu cyfrifoldebau diogelu gwybodaeth o ddifrif ac yn gweithredu nifer o fesurau i sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei diogelu rhag cael ei cholli, ei dwyn neu ei chamddefnyddio. Mae'r rhagofalon diogelwch yn cynnwys diogelwch ffisegol priodol swyddfeydd a mynediad cyfyngedig ac wedi'i reoli at systemau cyfrifiadurol. Mae mesurau llym wedi'u gweithredu i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei storio'n ddiogel ac mai dim ond yr unigolion hynny sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r prosiect sy'n ei gweld.

### **Y sail gyfreithiol dros brosesu data personol er mwyn gweinyddu Arolwg Cleifion NPCA**

Mae prosesu data personol (gwybodaeth gyfrinachol) yn galw am gyfiawnhad o dan ddau fframwaith cyfreithiol: Y Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data/Deddf Diogelu Data 2018 ac yn unol â dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin.

Yn unol â GDPR/Deddf Diogelu Data 2018, sail HQIP ar gyfer prosesu'r *data personol* yn gyfreithlon yw Erthygl 6(1)(e) - "*mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd.*"

Mae rhai mathau penodol o ddata personol, er enghraifft data iechyd, yn cael eu dosbarthu hefyd fel 'data personol categori arbennig'. Mae'r gyfraith yn ystyried bod data personol categori arbennig yn fwy sensitif ac mae'n darparu mwy o ddiogelwch cyfreithiol iddo (am wybodaeth bellach gweler: Gwefan ICO: Data Categorï Arbennig). Sail gyfreithlon HQIP dros brosesu data personol categorï arbennig yw Erthygl 9(2)(h)– "*mae angen prosesu at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu cyflogai i weithio, diagnosis meddygol, darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol neu drin neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol*".

Yn ogystal, er mwyn gallu cysylltu â chleifion cymwys heb eu cydsyniad, rydym wedi [sicrhau caniatâd arbennig](#) i gaffael a phrosesu data personol o dan [adran 251 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006](#) (15\_CAG\_0143\_Arolwg Cleifion NPCA). Mae'r caniatâd hwn yn galluogi NCRAS a'r WCN i rannu data cyfrinachol personol i gleifion sy'n gymwys ar gyfer yr arolwg cleifion gyda Quality Health Ltd, er mwyn gallu gweinyddu Arolwg Cleifion NPCA. Mae gwybodaeth bellach am adran 251 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ar gael [yma](#).

### **Beth sy'n digwydd ar ôl i mi gwblhau'r Arolwg?**

Dychwelir holiaduron sydd wedi'u cwblhau at Quality Health Ltd a fydd yn glanhau'r data ymateb drwy ddileu'r holl wybodaeth sy'n datgelu pwy yw cleifion, gan gynnwys enw, cyfeiriad, dyddiad geni, cyfeiriad, cod post a rhif y GIG. Mae data ymateb wedi'i ddadbersonoli yn cael ei drosglwyddo i dîm Prosiect NPCA yn Uned Effeithiolrwydd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, sy'n gyfrifol am ddadansoddi ymatebion yr Arolwg Cleifion.

## Beth sy'n digwydd i fy atebion?

Mae Tîm Prosiect NPCA yn cysylltu'r atebion sydd wedi'u dadpersonoli gydag Arolwg Cleifion NPCA gyda gwybodaeth glinigol ar lefel cleifion, sydd wedi'i dadpersonoli ynglŷn â'r clefyd a thriniaeth ar sail dynodydd unigryw NPCA i'w dadansoddi.

Mae gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon fesurau llym ar waith i ddiogelu'r defnydd o wybodaeth ar lefel cleifion, sydd wedi'i dadpersonoli, a'i storio, sy'n cael ei thrin yn unol â'r GDPR. Mae'r holl ddata sydd wedi'i ddadpersonoli yn cael ei storio a'i ddadansoddi mewn amgylchedd diogel sy'n cydymffurfio â [Phecyn Offer Diogelu GIG Digidol](#) <<https://www.dsptoolkit.nhs.uk/OrganisationSearch/8HM21>>.

Mae'r NPCA yn ofalus iawn wrth gyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys graffiau neu dablau nad ydynt yn galluogi i unigolion gael eu hadnabod. I sicrhau hyn, mae'r Archwiliad yn dilyn canllawiau ar gyhoeddi ystadegau a gyhoeddwyd gan [y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Adolygiad Dosbarthu Ystadegau Iechyd: Canllaw Cyfrinachedd \(PDF\)](#).

## A fydd fy meddyg yn gweld fy atebion i'r arolwg hwn?

Ni fydd eich ymateb i'r holiadur yn cael ei rannu gyda'ch meddyg.

## Gyda phwy ydych chi'n rhannu'r data?

Pan fyddwch yn cytuno i gymryd rhan yn Arolwg Cleifion NPCA, gallai'r wybodaeth am eich iechyd a'ch gofal gael ei darparu i ymchwilwyr sy'n cynnal astudiaethau eraill ym meysydd gwerthuso gwasanaeth a gwella gofal iechyd. Gall y sefydliadau hyn fod yn brifysgolion, sefydliadau'r GIG neu gwmnïau sy'n gysylltiedig ag ymchwil iechyd a gofal yn y wlad hon neu dramor.

Mae angen i ymchwilwyr sy'n dymuno defnyddio data o Arolwg Cleifion NPCA ar gyfer astudiaeth ymchwil wneud cais i HQIP. Bydd y ceisiadau hyn yn destun proses gymeradwyo lem iawn, sydd wedi'i hamlinellu [yma](#). Bydd data ond yn cael ei rannu yn unol â gweithdrefnau llywodraethu caeth, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR a deddfwriaeth berthnasol arall. Fel yr esboniwyd yn gynharach, ni fydd y data sy'n cael ei rannu yn datgelu pwy ydych chi ac ni fydd ymchwilwyr yn cael cyfuno'r data gyda gwybodaeth arall mewn ffordd y gellir eich adnabod.

## Beth os nad wyf eisiau i'r NPCA ddefnyddio fy ngwybodaeth glinigol lefel cleifion?

Caniateir i [Rwydwaith Cancer Cymru](#) a'r [Gwasanaeth Cenedlaethol Cofrestru a Dadansoddi Cancer \(NCRAS\)](#) yn Lloegr gasglu data am gleifion sydd wedi derbyn diagnosis o ganser. Mae gwybodaeth am sut i eithrio o'r broses casglu data ar gael [yma](#).

## Sut gall cyfranogwyr eithrio o Arolwg Cleifion NPCA?

Gellir cyfranogi ar sail wirfoddol. Bydd cleifion yn cydsynio drwy ddychwelyd holiadur wedi'i gwblhau ac yn gwrthod drwy beidio â dychwelyd holiadur. Mae croeso i gyfranogwyr dynnu yn ôl y wybodaeth maent wedi'i darparu i Arolwg Cleifion NPCA unrhyw adeg heb roi unrhyw reswm, heb i hynny effeithio ar eu gofal meddygol neu eu hawliau cyfreithiol. Os ydych yn dymuno tynnu yn ôl o'r arolwg, cysylltwch â Quality Health LTd, darparwr yr arolwg, ar y rhif RHADFFÔN 0800 783 1775.

Gall cyfranogwyr eithrio hefyd drwy gysylltu â darparwr yr arolwg drwy e-bost: [info@quality-health.co.uk](mailto:info@quality-health.co.uk).

Fel arall, gall cyfranogwyr eithrio drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad rhadbost canlynol (nid oes angen stamp):

Freepost  
QUALITY HEALTH

## Cynlluniau adrodd

Cyhoeddir canlyniadau NPCA mewn adroddiadau blynyddol sydd ar gael ar [wefan NPCA](#) i ddarparu gwybodaeth am y mathau a graddau'r achosion o ganser y prostad ac ansawdd gwasanaethau a thriniaeth canser y prostad yng Nghymru a Lloegr. Mae [canlyniadau unigol ar lefel darparwr](#) ar gael, sy'n galluogi proses o gymharu perfformiad rhanbarthol a chenedlaethol. Mae [crynodedbau o'r adroddiadau blynyddol](#) yn cael eu paratoi ar gyfer cleifion a'r cyhoedd ac maent ar gael ar wefan NPCA yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol. Mae canlyniadau NPCA yn cael eu cyflwyno hefyd mewn cyflwyniadau cynhadledd a chyhoeddiadau wedi'u hadolygu gan gyfoedion.

## Am ba hyd y bydd data Arolwg Cleifion NPCA yn cael ei gadw?

Bydd Quality Health yn cadw data ymateb a data adnabod (enw a chyfeiriad) electronig ar wahân. Bydd data adnabod yn cael ei ddinistrio o fewn tri mis ar ôl cwblhau'r arolwg. Bydd Quality Health yn dinistrio data ymateb cleifion un flwyddyn ar ôl i'r data dienw gael ei drosglwyddo i Dîm Prosiect NPCA i'w ddadansoddi.

Bydd yr atebion sydd wedi'u dad-bersonoli i Arolwg Cleifion NPCA yn cael eu cadw gan Dîm Prosiect NPCA ar gyfer hyd cyfnod yr Archwiliad.

## Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn bob amser yn cynnwys y fersiwn diweddaraf ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 15.01.20

## Eich hawliau

Mae'r GDPR yn cynnwys nifer o hawliau, er nad yw pob un o'r rhain yn berthnasol pan fydd y sail gyfreithiol dros broses yn dasg gyhoeddus, gan gynnwys yr hawl i ddileu a hygludedd data. Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn disgrifio sut y bydd HQIP yn cyflawni ei ddyletswyddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hawliau gwrthrychau'r data.

Mae gennych hawl i ofyn am fynediad at unrhyw ddata personol a ddelir gan Quality Health Ltd hyd at dri mis ar ôl cwblhau'r arolwg pan fydd gwybodaeth adnabyddadwy yn cael ei dileu. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl a gwrthwynebu i'ch data personol neu'r atebion a roddwch i'r arolwg, unrhyw adeg cyn i'r data gael ei brosesu ar gyfer adrodd arno.

Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffordd yr ydym wedi prosesu eich data personol. Mae manylion am sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gael [yma](#) neu drwy anfon [e-bost](#).

## Sut allaf i gysylltu â'r NPCA ynglŷn â'r arolwg hwn a/neu fy nata personol?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y polisi preifatrwydd, y wybodaeth sydd gennym amdanoch chi neu sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth, cysylltwch â NPCA drwy [e-bost](#) neu ysgrifennwch atom yn:

### National Prostate Cancer Audit

Clinical Effectiveness Unit

Royal College of Surgeons of England

35-43 Lincoln's Inn Fields

London WC2A 3PE

**E:** [npca@rcseng.ac.uk](mailto:n pca@rcseng.ac.uk)

**G:** [www.npca.org.uk](http://www.npca.org.uk)